# Ordinhad 5
# Y Cyngor: Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 19 Mawrth 2021

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 4.1

**Dyddiad adolygu diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

**ORDINHAD 5**
**Y CYNGOR: DATGANIAD O'R PRIF GYFRIFOLDEBAU**

Bydd y Cyngor yn ceisio hyrwyddo amcanion y Sefydliad fel y maent wedi eu diffinio yn ei Siarter, sy'n cynnwys diogelu enw da a gwerthoedd y Sefydliad a sicrhau bod y Sefydliad yn ymateb i fuddiannau ei randdeiliaid, gan gynnwys y myfyrwyr, y gymuned leol a chyrff cyllido.

Y mae'r Cyngor yn gweithredu'r holl bwerau sydd ar gael i'r Sefydliad ar wahân i'r rhai a roddir yn benodol i gyrff eraill. Ag eithrio wrth ymwneud â materion sy'n gofyn am drefniadau pleidleisio arbennig, cymerir penderfyniadau gan y Cyngor ar sail y mwyafrif o'r rhai sydd yn bresennol ac yn pleidleisio.

<u>Rhestr o'r Prif Gyfrifoldebau</u>

1. Gosod a chymeradwyo strategaeth, cenadwri, a gweledigaeth y Sefydliad gyda'r Weithrediaeth.

2. Cytuno cynlluniau busnes ac academaidd hirdymor, a dangosyddion perfformiad allweddol, a sicrhau bod y rhain yn bodloni buddiannau rhanddeiliaid, yn enwedig myfyrwyr a staff.

3. Diogelu enw da a gwerthoedd y Sefydliad, ei gweithredu a'i datblygu cynaliadwy, a sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a staff yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â llywodraethu a rheoli'r Sefydliad.

4. Sicrhau y cydymffurfir â dogfennau llywodraethu'r Sefydliad ar bob adeg, a sicrhau bod cyngor priodol ar gael fel bod hyn yn gallu digwydd.

5. Arfer ei waith yn unol ag arferion gorau rheolaeth gorfforaethol mewn Addysg Uwch, gan gynnwys y Siarter llywodraethu ar gyfer prifysgolion yng Nghymru, Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC), ac ag egwyddorion bywyd cyhoeddus a baratowyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

6. Sicrhau bod prosesau ar waith i fonitro a chloriannu perfformiad ac effeithlonrwydd y Sefydliad o'u cymharu â strategaethau, chynlluniau a dangosyddion perfformiad allweddol cymeradwy y dylid, lle y bo hynny'n bosibl ac yn briodol, eu meincnodi trwy eu cymharu â sefydliadau eraill tebyg.

7. Sefydlu prosesau i fonitro a chloriannu perfformiad ac effeithlonrwydd y Cyngor ei hun, fel y corff llywodraethu.

8. Bod yn awdurdod ariannol a busnes i'r Sefydliad, sicrhau bod y llyfrau cyfrifon cywir yn cael eu cadw, cymeradwyo'r gyllideb flynyddol a'r datganiadau ariannol, ac ysgwyddo atebolrwydd cyffredinol am asedau'r Sefydliad, ei eiddo a'i ystâd.

9. Sicrhau bod systemau rheoli ac atebolrwydd yn cael eu sefydlu a'u monitro, gan gynnwys rheolaeth ariannol a gweithredol ac asesu risg, gwerth am arian, a gweithdrefnau i ymdrin â chwynion mewnol ac i reoli gwrthdaro buddiannau.

10. Cael sicrwydd bod darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud er lles cyffredinol myfyrwyr.

11. Hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi cynwysoldeb ac amrywiaeth ar draws y Sefydliad.

12. Cynnal a diogelu egwyddorion rhyddid academaidd a deddfwriaeth rhyddid i lefaru.

13. Gweithredu fel awdurdod cyfreithiol y Sefydliad a, thrwy hynny, sicrhau bod systemau ar waith i gyflawni holl rwymedigaethau cyfreithiol y Sefydliad, gan cynnwys y rhai sy'n deillio o gontractau ac

ymrwymiadau cyfreithiol eraill a wneir yn enw'r Sefydliad. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am iechyd, diogelwch a sicrwydd, ac am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

14. Gweithredu fel ymddiriedolwr i unrhyw eiddo, cymynrodd, gwaddoliad, becwêdd, neu rodd a wneir i gynorthwyo gwaith a lles y Sefydliad; a sicrhau bod statws y Brifysgol yn cael ei gynnal fel elusen gofrestredig.

15. Dirprwyo awdurdod i'r Is-Ganghellor, fel prif weithredwr, am reolaeth academaidd, corfforaethol, ariannol, ac am reoli ystâd a staff y Sefydliad; a sefydlu ac adolygu'n rheolaidd y polisïau, y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y swyddogaethau rheoli hynny a wneir drwy awdurdod yr Is-Ganghellor.

16. Gweithredu fel awdurdod cyflogi i holl staff y Sefydliad, a bod yn atebol am sicrhau bod strategaeth adnoddau dynol briodol yn cael ei sefydlu a'i gweithredu.

17. Penodi'r Is-Ganghellor, fel prif weithredwr, a rhoi ar waith drefniadau priodol ar gyfer monitro ei berfformiad / ei pherfformiad.

18. Penodi Clerc i'r Cyngor a sicrhau, os oes gan y sawl a benodir gyfrifoldebau rheoli yn y Sefydliad, fod gwahaniaeth clir rhwng y llinellau atebolrwydd.